

## COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Abertawe am 3.00 ar 23 Mai 2016

### Yn bresennol:

- Aelodau: Geraint James (Cadeirydd)  
Yr Athro Iwan Davies (rhwng 3.00 a 4.00)  
Andrew Green (Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr)  
Dr Rhodri Llwyd Morgan (dros y rhwydwaith)  
Gareth Pierce
- Archwilwyr: Louise Delbridge, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol)  
Carol Warburton, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol)
- Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr  
Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg  
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd  
Nia Brown, Swyddog Datblygu
- Ymddiheuriadau: Gareth Eyres  
Yr Athro Jacqui Hare

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>1. Croeso ac ymddiheuriadau</b>	1.1 Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Estynnwyd croeso arbennig i Andrew Green, Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr, a Louise Delbridge a Carol Warburton, Archwilwyr Mewnol. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod.		
<b>2. Datganiadau o ddiddordeb</b>	2.1 Nid oedd datganiadau o ddiddordeb.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>3. Diweddariad cyffredinol</b>	<p>3.1 Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar sefyllfa gyfredol y Coleg. Adroddwyd bod y dyraniad cyllidebol i'r Coleg ar gyfer 2016/17 a gyhoeddwyd ar wefan CCAUC heddiw yn gyson â'r hyn a gynlluniwyd ar ei gyfer. Nodwyd, fodd bynnag, bod angen trafodaeth bellach yng nghyd-destun blwyddyn ariannol 2017/18.</p> <p>3.2 Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar sefyllfa'r Coleg ym mhorthfolio'r Gweinidog Addysg, materion yn ymwneud ag argymhellion Adolygiad Diamond, a phwysigrwyd sicrhau cyllideb hir dymor i'r Coleg.</p>		
<b>4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol</b>	<p>4.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2016, fel cofnod cywir.</p>		
<b>5. Sefydlu is-gwmni i'r Coleg (Eitem 11)</b>	<p>5.1 Cyflwynwyd papur ar sefydlu is-gwmni i'r Coleg gan yr Athro Iwan Davies.</p> <p>5.2 Eglurwyd bod CCAUC yn annog y Coleg "i geisio am gyllid gan ffynonellau eraill" ac y byddai sefydlu is-gwmni yn galluogi'r Coleg i ymgymryd â gweithgareddau eraill y tu allan i'w brif ffrwd o weithgareddau. Amlinellwyd statws cyfansoddiadol presennol y Coleg, y risgiau a'r manteision o sefydlu is-gwmni.</p> <p>5.3 Trafodwyd y sefyllfa o ran treth ar werth, atebolrwydd, natur cystadleuol is-gwmni o'r fath a'r posibilrwydd o weithredu y tu hwnt i Glawdd Offa.</p> <p>5.4 Eglurwyd mai sefydlu'r egwyddor o greu is-gwmni yw'r bwriad yn gyntaf, cyn symud ymlaen i weithredu unrhyw broses er mwyn manteisio ar gyfleodd i'r Coleg yn y dyfodol.</p> <p>5.5 Cymeradwywyd argymhell yr egwyddor o sefydlu is-gwmni, yn amodol ar gyngor arbenigol ar y broses a'r goblygiadau a chynnal asesiad risg llawn, i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 22 Mehefin 2016.</p>	Argymhelliad i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr	22 Mehefin 2016

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<p><b>6. Canolfan Rhagoriaeth Iechyd a Gofal Gwledig (Eitem 10 ac Atodiad 10a)</b></p>	<p>6.1 Cyflwynwyd papur ar y Ganolfan Rhagoriaeth Iechyd a Gofal Gwledig gan y Cofrestrydd. Eglurwyd bod y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi argymhell bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried goblygiadau cydweithio â'r 'Mid Wales Healthcare Collaborative' i sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Iechyd a Gofal Gwledig. Yn dilyn cyfarfod ffurfiol rhwng swyddogion y Coleg a swyddogion y 'Collaborative' paratowyd cytundeb drafft yn manylu ar natur y gwasanaeth fyddai'n cael ei gynnis gan y Coleg, ac yn cynnis fframwaith i ddiogelu'r Coleg. Nodwyd er bod y Ganolfan yn mynd rhagddo na fyddai'r Coleg yn ymwneud â'r prif elfennau a oedd yn rhan o'r cytundeb erbyn hyn, ond y byddai'r Ganolfan yn prynu gwasanaethau ar-alw gan y Coleg, megis arbenigedd uwch reolwyr.</p> <p>6.2 Trafodwyd y dull gweithredu a'r cytundeb. Canmolwyd y cyfle i'r Coleg dangos arbenigedd a chael cydnabyddiaeth am y gwaith.</p> <p>6.3 Cytunwyd bod y cytundeb drafft a luniwyd yn cynnis model addas ar gyfer cydweithio mewn cyd-destunau gwahanol yn y dyfodol.</p> <p><i>Gadawodd yr Athro Iwan Davies ar y pwynt hwn.</i></p>		
<p><b>7. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 2 a 3 2015/16 (Eitemau 5 a/b)</b></p>	<p>7.1 Cafwyd eglurhad ar Gyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer chwarter 2 a 3 2015/16 gan y Cofrestrydd. Eglurwyd bod y rhagamcanion gwariant yn gyson â'r gyllideb ddiwygiedig a osodwyd dros ddwy flynedd tan 2016/17.</p> <p>7.2 Eglurwyd mai arbedion yn hytrach na thoriadau sydd wedi sicrhau lleihad yn y gwariant e.e. lle mae swyddi'r cynllun staffio wedi dod i ben ar ddiwedd pum mlynedd.</p> <p>7.3 Derbyniwyd y cyfrifon.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>8. Cyllideb y Coleg 2016/17</b>	<p>8.1 Cyflwynwyd adroddiad llafar ar gyllideb y Coleg ar gyfer 2016/17 gan y Cofrestrydd a'r Prif Weithredwr.</p> <p>8.2 Trafodwyd nad oedd modd gosod cyllideb y tu hwnt i 2016/17 gan nad oedd y Coleg wedi derbyn unrhyw sicrwydd cyllidol. Fodd bynnag, mae llawer o waith wedi ei gyflawni ar fodelu cyllidebau ar wahanol lefelau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mae trafodaethau ar y modelau hynny yn parhau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Cyllido.</p>		
<b>9. Y Gofrestr Risg (Eitem 7)</b>	<p>9.1 Cafwyd diweddariad ar y Gofrestr Risg gan y Cofrestrydd a'r Prif Weithredwr.</p> <p>9.2 Nodwyd bod y newidiadau a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol ar 9 Chwefror 2016 wedi'u cynnwys yn y risgiau strategol.</p> <p>9.3 Nodwyd ymhellach y bydd y swyddogion yn diweddarau'r risgiau gweithredol yn unol â'r drefn arferol.</p>		
<b>10. Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol (Eitemau 8a/b/c ac Atodiad 8a)</b>	<p>10.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Gaffael a Gwariant gan Carol Warburton.</p> <p>10.2 Eglurwyd bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar sicrhau bod gweithdrefnau a phrosesau digonol yn eu lle i gefnogi a hwyluso caffael effeithiol ac effeithlon ar nwyddau a gwasanaethau; ac effaith y broses ar allu unigolion awdurdodedig yn y sefydliad i hwyluso rheolaeth gyllidebol briodol.</p> <p>10.3 Nodwyd bod mân ddiwygiadau i'r Rheoliadau Ariannol yn sgil yr adolygiad.</p> <p>10.4 Datganwyd sicrwydd sylweddol gan yr adolygiad gyda mân argymhellion risg isel sydd eisoes wedi'u gweithredu gan y swyddogion.</p> <p>10.5 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar y Gyflogres a Threuliau gan Louise</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Delbridge.</p> <p>10.6 Eglurwyd bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn eu lle i hwyluso'r broses gyflogres a threuliau yn unol â pholisïau mewnol a deddfwriaethol.</p> <p>10.7 Datganwyd sicrwydd sylweddol gan yr adolygiad gyda mân argymhellion risg isel sydd eisoes wedi'u gweithredu gan y swyddogion.</p> <p>10.8 Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar raglen waith 2015/16 yr Archwilwyr Mewnol gan Carol Warburton.</p> <p>10.9 Trafodwyd rhaglen waith yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer gweddill 2015/16 yn sgil sefyllfa gyllidol gyfredol y Coleg. Argymhellwyd darparu adroddiad ar y Canghennau erbyn mis Gorffennaf i'w ystyried gan aelodau'r pwyllgor drwy ohebiaeth.</p> <p>10.10 Cytunwyd i lunio cynllun archwilio mewnol ddrafft ar gyfer 2016/17.</p> <p>10.11 Derbyniwyd yr adroddiadau a diolchwyd yr Archwilwyr Mewnol yn ffurfiol am eu gwaith.</p>	AM i gyflwyno adroddiad ar y Canghennau	Erbyn mis Gorffennaf
<b>11. Rhestr ffioedd (Eitem 9)</b>	<p>11.1 Derbyniwyd rhestr ddiwygiedig o ffioedd a gynigir gan y Coleg ar gyfer darparu cydnabyddiaeth i aelodau allanol o bwyllgorau'r Coleg, aelodau allanol o baneli dyfarnu a phaneli adolygu, darparwyr rhaglen hyfforddiant datblygu staff a rhai swyddogaethau penodol eraill.</p> <p>11.2 Cymeradwywyd y rhestr ffioedd ddiwygiedig.</p>		
<b>12. Materion yn Codi</b>	12.1 Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.		
<b>13. UFA</b>	13.1 Nid oedd unrhyw fusnes arall.		
<b>14. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf</b>	14.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016/17 dros y rhwydwaith fideo		

<b>Eitem</b>	<b>Prif bwyntiau trafod</b>	<b>Pwyntiau Gweithredu</b>	<b>Cyfnod amser</b>
	<ul style="list-style-type: none"><li>• 18 Hydref 2016, 10.00-12.30</li><li>• 14 Chwefror 2017, 10.00-12.30</li><li>• 16 Mai 2017, 10.00-12.30</li></ul>		